**Hysbysiad Preifatrwydd – Proses Recriwtio Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn Brifysgol ffyniannus ac ariannol gynaliadwy sy'n recriwtio'n barhaus ar gyfer nifer o swyddi allweddol. Mae'r Brifysgol yn defnyddio proses ymgeisio ar-lein i'ch galluogi chi, yr ymgeisydd, i ymgeisio am y swydd(i) o'ch dewis.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd canlynol yn disgrifio sut mae eich data'n cael ei reoli gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd at ddiben y broses ymgeisio yn unol â deddfwriaeth diogelu data - Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA18).

1) Cyflwyniad
   Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae'n ymroddedig i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â GDPR y DU a'r DPA18. Gallwch weld ei Datganiad Preifatrwydd yma.

2) Cyswllt Diogelu Data
   Gallwch gysylltu â Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth a Data Prifysgol Metropolitan Caerdydd trwy'r llwybrau canlynol (os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch prosesu eich data):

   E-bost: SWeaver@cardiffmet.ac.uk a/neu dataprotection@cardiffmet.ac.uk.

3) Trosolwg
   Trwy gyfrwng yr hysbysiad hwn, mae'r Brifysgol yn dymuno rhoi gwybod i chi am y canlynol:
   - Y data personol a'r data categori arbennig y mae'n eu casglu;
   - Pam fod y data hwn yn cael ei gasglu a'i brosesu;
   - Pwy sydd â mynediad at y data hwn a gyda phwy mae'r Brifysgol yn rhannu'r data;
   - Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol a chategori arbennig;
   - Mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau bod data personol yn aros yn ddiogel;
   - Cyfnodau cadw; a
   - Gwybodaeth gyffredinol.

4) Data Personol a Gaiff ei Gasglu
   - Cyfeiriad
   - Rhif ffôn/ffôn symudol cyswllt
   - Dyddiad geni
   - E-bost
   - Enw
   - Rhif Yswiriant Gwladol
   - Manylion yr Hawl i Weithio yn y DU (Tystiolaeth o'r Hawl i Weithio)
   - Data sgiliau Cymraeg

5) Data Categori Arbennig a Gaiff ei Gasglu

(Sylwch: data personol sydd angen ei amddiffyn yn fwy oherwydd ei fod yn sensitif yw data categori arbennig)

- Data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig
- Data personol sy'n datgelu crefydd neu gredoau athronyddol
- Data sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn casglu ac yn monitro data cydraddoldeb dienw ar bob un o'r naw nodwedd warchodedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol i'r Brifysgol fonitro yn ôl yr holl nodweddion gwarchodedig, fel rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i hyrwyddo a gweithredu arfer gorau ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn darparu amgylchedd gwaith a dysgu i alluogi staff a myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Brifysgol yn dymuno gweithio y tu hwnt i'r gofynion deddfwriaethol wrth gyflawni polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac mae'n anelu at sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan annatod o bopeth a wna.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn sefydliad lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo, a gwasanaethau'n cael eu darparu i gefnogi'r holl staff a myfyrwyr.

6) Data Troseddau a Gaiff ei Gasglu

- Euogfarnau heb eu disbyddu

7) At ba ddibenion y mae'r Brifysgol yn defnyddio'ch Data Personol

Cesglir data personol i'ch adnabod a chysylltu â chi ar ôl cyflwyno cais am swydd wag. Wedi hynny, gellir defnyddio'r wybodaeth honno i gyfathrebu â chi drwy gydol y broses recriwtio.

**a) Tystiolaeth Foddhaol o'r Hawl i Weithio yn y DU**

Mae gan bob cyflogwr yn y DU gyfrifoldeb i atal gweithio anghyfreithlon. Nodir y gyfraith ar atal gweithio anghyfreithlon yn adrannau 15 i 25 Deddf Mewnfudo a Chenedligrwydd 2006 (Deddf 2006), adran 24B Deddf Mewnfudo 1971, ac Atodlen 6 Deddf Mewnfudo 2016. Ar ôl cyflwyno cynnig cyflogaeth a chyn y gall gweithiwr ddechrau ei gyflogaeth, byddwn yn gofyn am dystiolaeth foddhaol o'ch Hawl i Weithio yn y DU.

**b) Manylion Geirdaon Cyflogaeth**

Bydd y Brifysgol yn casglu geirdaon cyflogaeth i helpu i ddilysu eich hanes cyflogaeth ac i helpu i asesu a all unigolion wneud y gwaith y bydd yn ofynnol iddynt ei gyflawni. Gyda'ch cydsyniad, bydd y Gwasanaethau Pobl yn gofyn am o leiaf ddau eirda cyflogaeth.

**c) Cymwysterau ac Achrediadau Proffesiynol**

Mae'r Brifysgol yn gofyn am dystiolaeth o'r holl gymwysterau hanfodol a/neu gofrestriadau proffesiynol i sicrhau bod gan unigolion y cymwysterau a'r sgiliau i gyflawni'r gwaith y maent yn cael eu cyflogi i'w wneud. Mewn rhai proffesiynau, mae tystiolaeth o gofrestriadau proffesiynol unigolyn yn rhwymedigaeth statudol.

**ch) Gwybodaeth Feddygol/Iechyd**
Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r Brifysgol yn gofyn am wybodaeth ac yn cynnal asesiadau meddygol i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod cyflogeion yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i gyflawni'r rôl y cawsant eu dewis ar ei chyfer heb risg i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain, nac iechyd a diogelwch eraill. Yn ogystal, defnyddir y wybodaeth hon i benderfynu pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i gefnogi gweithwyr yn eu rôl, lle bo hynny'n bosibl.

**d) Data Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
Defnyddir data Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i:
- Fonitro a gwerthuso effaith y Cynllun Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Llywio ac arwain asesiadau cydraddoldeb;
- Llunio arferion recriwtio staff a myfyrwyr;
- Sicrhau cynrychiolaeth deg o staff a myfyrwyr; a
- Gwella mentrau'r Brifysgol.

**f) Data sgiliauCymraeg**
Hoffai Gwasanaethau Pobl ac Uned yr Iaith Gymraeg gasglu data am eich sgiliau Cymraeg i wella darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg ar draws y Brifysgol.

8) Rhannu Gwybodaeth â Sefydliadau Eraill
Os byddwch yn dod yn gyflogai ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, bydd eich data sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei rannu ag aelodau staff eraill yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleoedd sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg. Bydd y staff hynny'n cysylltu â chi i roi cyfleoedd i chi ddefnyddio a datblygu eich sgiliau (byddwch yn cael yr opsiwn p'un a ydych yn penderfynu manteisio ar y rhain ai peidio).

Cedwir ata eich cais yn system olrhain ymgeiswyr recriwtio staff y Brifysgol, Stonefish Software Ltd. Mae gan Stonefish gytundebau digonol ar waith i sicrhau bod storio eich data yn cydymffurfio â GDPR y DU, y DPA18, ac unrhyw gyfreithiau cymwys eraill. Ni chaiff eich data ei drosglwyddo y tu allan i'r DU. Os hoffech ragor o wybodaeth am ddull Stonefish o gydymffurfio â GDPR, cysylltwch â support@stonefish.co.uk.

Caiff eich data ei storio yn System Meddalwedd Gwasanaethau Pobl y Brifysgol o'r enw iTrent. Mae iTrent yn gynnyrch MHR UK & Ireland; gallwch weld Polisi Preifatrwydd MHR yma.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn defnyddio Porth Rheoli Nawdd Fisas a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref sy'n rhan o Gov.uk, y gallwch weld eu Datganiad Preifatrwydd yma. Gellir defnyddio'r porth hwn mewn sefyllfaoedd lle mae angen nawdd ar ymgeiswyr. Byddwn yn cael cydsyniad i rannu eich manylion personol gyda'r Swyddfa Gartref pan fo angen.

Os bydd rôl yn nodi bod angen gwiriad GDG, ac ar ôl cynnig cyflogaeth, bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn defnyddio First Advantage Online Disclosures i gynnal ei gwiriadau GDG. Gallwch weld eu Polisi Preifatrwydd yma.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn defnyddio Insight Health Screening Ltd i gynnal asesiadau iechyd meddygol. Gallwch weld eu Polisi Preifatrwydd yma.

Ni fydd gan unrhyw drydydd parti arall fynediad i'ch data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny.

9) Sail Gyfreithiol Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer Prosesu Eich Data Personol

a) Er mwyn prosesu'ch data personol, rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag un o'r 'Seiliau Cyfreithlon' ar gyfer prosesu data o dan Erthygl 6 GDPR y DU. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddi gael rheswm cyfreithlon dros ddefnyddio/storio gwybodaeth bersonol at y dibenion a amlinellir yn Adran 7 o'r hysbysiad hwn.

   Erthygl 6.1(a) – **Cydsyniad** (Dim ond gyda chydsyniad yr ymgeisydd y gall y Brifysgol gynnal gwiriadau Hawl i Weithio)
   *Mae gwrthrych y data wedi cydsynio i'w ddata personol ef/hi gael ei brosesu at un neu fwy o ddibenion penodol.*

   Erthygl 6.1 (e) - **Cyflawni Tasg Gyhoeddus**
   *Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r Rheolwr.*

   Erthygl 6.1(f) – **Buddiannau Cyfreithlon**

   Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio lle mae buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r gwrthrych data yn blentyn.

b) Er mwyn prosesu'ch data categori arbennig, rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag un o'r 'Seiliau Cyfreithlon' ar gyfer prosesu o dan Erthygl 9 GDPR y DU.

   Erthygl 9.2(b) – **Cyflogaeth**
   *Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau sy'n cael eu gosod ar neu eu rhoi gan y gyfraith i'r rheolwr neu wrthrych y data mewn cysylltiad â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol, neu amddiffyniad cymdeithasol.*

c) Er mwyn prosesu data troseddau, rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd sicrhau ei bod yn bodloni amod yn Atodlen 1 ar gyfer prosesu yn y DPA18.

   Atodlen 1, Rhan 1 (1) – **Cyflogaeth, Nawdd Cymdeithasol ac Amddiffyniad Cymdeithasol**
   *Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau sy'n cael eu gosod ar neu eu rhoi gan y gyfraith i'r rheolwr neu wrthrych y data mewn cysylltiad â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol, neu amddiffyniad cymdeithasol.*

10) Diogelwch Prosesu

Fel y Rheolwr, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi gweithredu mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau bod data personol a brosesir yn aros yn ddiogel, ond ni ellir gwarantu diogelwch llwyr. Os oes gennych bryder ynghylch dull o drosglwyddo data, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i ddarparu dull arall. I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch TG ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac am gadw eich data'n ddiogel, cliciwch yma.

Mae gwybodaeth yn ymwneud â data categori arbennig, megis nodweddion gwarchodedig, yn cael ei storio'n ddiogel gan ddilyn egwyddorion diogelu data llym. Dim ond mewn fformat dienw y caiff gwybodaeth ei chyhoeddi, mewn adroddiadau er enghraifft.

11) Cadw Data Personol

| Cofnod | Cyfnod Cadw | Dull Gwaredu |
|---|---|---|
| Proffiliau ymgeiswyr allanol ar Stonefish. | 12 mis o greu proffil. | Gwaredu'n awtomatig os nad yw'r cyfrif wedi cael ei ddefnyddio ar ôl 12 mis. |
| Cofnodion ceisiadau ymgeiswyr allanol aflwyddiannus ar Stonefish. | 12 mis or' cyfrif yn cael ei ddefnyddio ddiwethaf | Cais yn ddienw. |
| Cofnodion ceisiadau ymgeiswyr mewnol aflwyddiannus ar Stonefish. | Yn unol â pholisi diogelu data staff | 7 mlynedd ar ôl y dyddiad gadael |
| Cofnodion y gweithwyr | Yn unol â pholisi diogelu data staff | 7 mlynedd ar ôl y dyddiad gadael |

Gwaredir yr holl gofnodion yn unol â Pholisi Rheoli Cofnodion Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

12) Hawliau Unigol

Gall y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu effeithio ar ba Hawliau sydd ar gael i unigolion.

Gan ddefnyddio Cydsyniad fel y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, mae eich Hawliau Unigol yn cynnwys:

- Yr Hawl i Gael Mynediad
- Yr Hawl i Gywiro
- Yr Hawl i Ddileu
- Yr Hawl i Gludadwyedd
- Yr Hawl i Dynnu Cydsyniad yn Ôl

Gan ddefnyddio Cyflawni Tasg Gyhoeddus fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, mae eich Hawliau Unigol yn cynnwys:

- Yr Hawl i Gael Mynediad
- Yr Hawl i Gywiro
- Yr Hawl i Wrthwynebu
- Yr Hawliau sy'n Gysylltiedig â Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd gan gynnwys Proffilio

Gan ddefnyddio Buddiannau Cyfreithlon fel y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, mae eich Hawliau Unigol yn cynnwys:

- Yr hawl i fynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i wneud penderfyniadau awtomatig

I gael mwy o wybodaeth am yr Hawliau hyn, cliciwch yma.

13) Cyffredinol

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd Bolisi Diogelu Data, sydd i'w weld yma. Os ydych chi am gwyno am y ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu, gallwch ddod o hyd i fanylion ar sut i wneud hynny yma.

Os na fydd y broses hon yn datrys eich mater, neu os ydych am fynd â'ch cwyn ymhellach, mae gennych yr hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y manylion cyswllt yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

0330 414 6421

www.ico.org.uk